# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Mesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd*

**12 Ailsgoriadau hylendid bwyd**

(1) Caiff gweithredwr sefydliad busnes bwyd ofyn i'r awdurdod bwyd wneud arolygiad ac asesiad pellach o safonau hylendid bwyd y sefydliad er mwyn ystyried a ddylid newid ei sgôr hylendid bwyd ("ailsgoriad").

(2) Rhaid i gais am ailsgoriad gael ei wneud ar y ffurf a ragnodir.

(3) Rhaid i awdurdod bwyd gydymffurfio â chais o'r fath os yw'r amodau yn is-adran (4) ac, os yw'n gymwys, yr amod yn is-adran (5) wedi eu bodloni.

(4) Yr amodau yn yr is-adran hon yw—

(a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd gyfredol wedi ei phenderfynu;

(b) bod y gweithredwr wedi hysbysu'r awdurdod bwyd am y gwelliannau a wnaed i'r safonau hylendid yn y sefydliad;

(c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn ei bod yn rhesymol i ail arolygu ac ailasesu'r sefydliad gyda golwg ar y gwelliannau y dywedwyd eu bod wedi eu gwneud;

(d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol wedi ei arddangos yn y sefydliad yn unol â gofynion adran 7;

(e) bod y gweithredwr wedi cytuno i sicrhau y caiff awdurdod bwyd fynd yno i wneud arolygiad o'r sefydliad at ddiben yr ailsgoriad.

(5) Yr amod yn yr is-adran hon yw bod gweithredwr y sefydliad busnes bwyd wedi talu costau rhesymol yr ailsgoriad, fel y'u penderfynwyd gan yr awdurdod bwyd yn unol ag adran 13.

(6) Nid yw is-adran (5) yn gymwys os nad yw'r awdurdod bwyd wedi ceisio cael taliad o'r costau hynny cyn yr arolygiad.

(7) Os yw'r amodau yn is-adran (4) ac, os yw'n gymwys, yr amod yn is-adran (5) wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod bwyd gwblhau'r ailsgoriad heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl cael y cais.

(8) Os yw awdurdod bwyd yn penderfynu na ddylai fod unrhyw newid i'r sgôr hylendid bwyd gyfredol, rhaid iddo hysbysu gweithredwr y sefydliad busnes bwyd cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cwblhau'r arolygiad.

(9) Os yw'r awdurdod bwyd yn penderfynu newid y sgôr hylendid bwyd, rhaid iddo, cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr arolygiad, anfon at weithredwr y sefydliad—

(a) hysbysiad ysgrifenedig am ei sgôr hylendid bwyd newydd;

(b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;

(c) sticer sgôr hylendid bwyd newydd;

(d) unrhyw wybodaeth arall a ragnodir.

(10) Mae'r gofynion yn adran 6 (cyhoeddi), adran 7 (arddangos sticeri) ac adran 8 (ceisiadau am wybodaeth)) yn gymwys i'r sgôr hylendid bwyd newydd.

(11) Mae adran 5 (yr hawl i apelio) ac adran 11 (yr hawl i ateb) yn gymwys i benderfyniadau'r awdurdod bwyd o dan is-adrannau (8) a (9).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 12(1), (3)-(8), (9)(a)-(c), (10)(11) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(g)**

**I3** A. 12(2)(9)(d) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(e)**

**I4** A. 12(2)(9)(d) mewn grym ar 28.11.2013 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 12.